



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 10 Mawrth 2021

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MAWRTH, 16 MAWRTH 2021** am **10.00 am** yn **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2020 (copi'n amgaaedig).

5 MENTER IAITH

Derbyn cyflwyniad ar waith Menter Iaith gan Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych.

Dolen at Adroddiad Blynyddol 2019-20 Menter Iaith Sir Ddinbych >
<https://misirddinbych.cymru/cms/wp-content/uploads/2021/01/Adroddiad-Blynyddol-2019-20203054.pdf>

6 DATBLYGIADAU'R GYMRAEG YN RHANBARTHOL A CHENEDLAETHOL (Tudalennau 11 - 18)

Ystyried adroddiad gan Swyddog y Gymraeg (copi ynghlwm) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar gynnydd gweithgareddau Cymraeg yn rhanbarthol a chenedlaethol.

7 GWEITHGAREDDAU I HYRWYDDO'R GYMRAEG (Tudalennau 19 - 24)

Ystyried adroddiad gan Swyddog y Gymraeg (copi ynghlwm) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar weithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg ers y cyfarfod diwethaf ac amlinellu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (Tudalennau 25 - 26)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (gweler yn amgaeedig).

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Ellie Chard
Ann Davies
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Arwel Roberts

Anton Sampson
Graham Timms
Joe Welch
Emrys Wynne

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth 12 Tachwedd 2019 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts, Graham Timms (Cadeirydd), Joe Welch a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Arsylwyr – Cynghorydd Meirick Lloyd Davies.

HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd y Tîm - Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrch (GW), Cymraeg
Swyddog Iaith (MC), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Rheolwr
Gwasanaethau Democraidd (SP) (Gwesteiwr) a Gweinyddwr Pwyllgor (RTJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater bryn.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019.

Materion yn Codi -

Holodd yr aelodau a oedd diweddariad ar Eisteddfod Urdd, eglurodd swyddogion eu bod wedi holi'r trefnwyr a oedd penderfyniad wedi'i wneud a fyddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw beth wedi'i gadarnhau, gobeithio y byddai'r Cyngor yn derbyn diweddariad yn fuan.

PENDERFYNWYD: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

5 ADRODDIAD MONITRO COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Cyflwynodd Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (TLCCM) yr adroddiad (a gylochredwyd yn flaenorol) i ddiweddarau Aelodau ar ganfyddiadau

gwaith monitro 2020, a wnaed gan swyddfa'r comisiynydd. Mae'r Comisiynydd Cymraeg yn monitro profiad y defnyddiwr yn flynyddol trwy brofi gwasanaethau penodol - gan gynnwys gohebiaeth, ffôn, derbynfa, gwefannau ac ati - ar gyfer sampl ar hap o sefydliadau.

Digwyddodd y gwaith yn ysbeidiol yn ystod y flwyddyn trwy ymarferion siopwyr dirgel, ymweliadau safle, ac archwilio ar-lein. Dyluniwyd y gwaith fel nad oedd yn arwain at ddefnydd afresymol o adnoddau sefydliadau. Yn 2019-20, roedd Sir Ddinbych yn rhan o'r sampl ar hap o sefydliadau. Amlinellir y canfyddiadau gan Swyddfa'r Comisiynydd, gyda golwg ar y sefydliad yn cymryd camau priodol i sicrhau cydymffurfiaid â gofynion statudol.

Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda swyddogion Comisiynydd Iaith Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, i drafod y canfyddiadau gyda'r adroddiad.

Dadl Gyffredinol -

Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg (WLSC) oedd yr unig bwyllgor a edrychodd ar ganfyddiadau adroddiad y Comisiynwyr, roedd cyfarfod Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg hefyd, a oedd yn edrych ar redeg yr leithoedd Cymraeg o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor.

Holodd yr aelodau a ellid anfon adroddiad y Comisiynwyr at bwyllgor craffu er mwyn i'r gwaith gael ei graffu ymhellach. Hysbysodd yr aelodau arweiniol y pwyllgor fod y pwyllgor wedi'i ffurfio i graffu ar yr Iaith Gymraeg o fewn y Cyngor, ac yn credu na fyddai'n fuddiol dyblygu gwaith. Awgrymodd y cadeirydd y gellid trafod y mater mewn cadeiriau Craffu ac is-gadeiryddion.

Holodd y pwyllgor am gyfieithu dogfennau, y fformatio ac ambell wall. Eglurodd swyddogion fod dogfennau'n cael eu cyfieithu trwy'r cytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Fodd bynnag, anfonwyd y dogfennau yn ôl yn yr un fformat ag y cawsant eu hanfon, yn anffodus gallai gwallau fformatio ddigwydd weithiau.

Roedd yr aelodau'n deall bod rhai gwallau gyda'r cyfieithu oherwydd weithiau nid oedd y cyfieithwyr yn gyfarwydd â'r rhai termau, weithiau roedd yn anodd cyfieithu rhai materion os nad oedd gennych chi ddealltwriaeth o'r mater sy'n cael ei gyfieithu.

PENDERFYNWYD bod y diweddariad a dderbyniwyd yn cael ei dderbyn a'i nodi gan y pwyllgor.

6 STRATEGAETH IAITH GYMRAEG

Cyflwynodd Arweinydd Tîm - Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (TMCCM) yr adroddiad gan ddatblygu Strategaeth Iaith Gymraeg newydd ar gyfer Sir Ddinbych (a gylchredwyd yn flaenorol). Mae Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i osod safonau sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg ac roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob awdurdod lleol fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg, fel rhan o'u hymateb i'r Safonau.

Mae'r strategaeth gyfredol, a fabwysiadwyd gan Gabinet Sir Ddinbych ym mis Mawrth 2017, yn amlinellu'r dull tuag at hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a hwyluso ei defnydd o fewn y sir ac mae disgwyliad i'r Cyngor adolygu ei strategaeth, bum mlynedd yn ddiweddarach o'r dyddiad cyhoeddi. Roedd disgwyl i'r strategaeth newydd ym mis Mawrth 2022.

Roedd Sir Ddinbych yn sir ddwyieithog yn bennaf gyda diwylliant a threftadaeth gyfoethog. Roeddem yn falch o hyn ac rydym am i'r balchder hwn gael ei adlewyrchu yn ein rhyngweithio o ddydd i ddydd â chymunedau, gyda thrigolion a gyda'n staff. Amlygwyd bod adroddiad y comisiynydd yn nodi'n glir gryfderau'r hyn yr oedd Cyngor Sir Ddinbych (CSD) yn gweithio'n dda i gael y strategaeth ar waith yn niwylliant y Cyngor.

Enghreifftiau o hyn oedd pethau bach fel Sir Ddinbych Heddiw a gylchredwyd i'r holl aelodau, gyda rhai geiriau Cymraeg i staff ddysgu rhywfaint o Gymraeg.

Roedd yr economi yn bwysig, ac roedd angen iddi weld yr effeithiau ar yr economi a'r Gymraeg ac roedd angen i Gyngor Sir Ddinbych hefyd sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol ym mhob adran, er mwyn sicrhau y byddai gwaith yn cael ei wneud i lefel uchel o ansawdd. Y camau nesaf oedd sicrhau bod y camau a'r gweithdrefnau gorau yn cael eu rhannu trwy'r Cyngor. Roedd y naratif cyfan gyda'r Cyngor a'r Gymraeg yn gryf ar y cyfan, yr unig negyddol diweddar oedd diffyg cyfieithu Cymraeg gyda chyfarfodydd rhithwir. Roedd hyn oherwydd cyfyngiadau technegol ac nid yr angerdd am y Gymraeg.

Roedd y comisiynydd Cymraeg eisiau i Gyngor Sir Ddinbych gael y strategaeth ar waith erbyn Mawrth 2022, roedd yn ôl disgrisiwn y Cyngor pe byddent yn dymuno i'r strategaeth fod yn gynllun 5 mlynedd neu'n gynllun tymor hwy. Gobeithio y byddai'r tîm yn dechrau gweithio yn fuan, byddai hyn yn caniatáu blwyddyn i gyflawni'r gwaith.

Dadl Gyffredinol -

Holodd y pwyllgor a ellid derbyn ac adolygu'r hen strategaeth i sicrhau bod yr holl dargedau'n cael eu cyrraedd, ac i sicrhau y gallem weithio ar rai agweddau. Awgrymwyd y gallai sesiwn fel gweithdy gael ei threfnu yn y dyfodol, byddai hyn yn caniatáu i'r materion gael eu trafod yn drylwyr.

Amlygwyd y themâu yn yr adroddiad y bedwaredd thema yn arbennig a oedd yn darllen - "Edrychodd Thema 4 ar sut y dylai Sir Ddinbych a'i phartneriaid datblygu economi gydnabod pwysigrwydd economi lewyrchus i ddyfodol yr Iaith Gymraeg a sicrhau bod strategaethau ar waith i sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc aros yn y gymuned leol."

Gofynnwyd faint o staff yn y tîm a oedd yn ddwyieithog, a sut y gallent gyfleu pwysigrwydd gyda'r Gymraeg yn y gymuned. Eglurodd swyddogion fod swyddogion yn gweithio gyda chyrrff allanol fel Menter Iaith Syr Ddinbych i sicrhau bod busnesau'n gweithio trwy gyfrwng Cymraeg.

Codwyd a oedd y Cyngor yn herio pob mater cynllunio o ran y Gymraeg. Gan y derbyniwyd cais cynllunio diweddar ar gyfer pentref bach a ostyngodd ganran y siaradwyr Cymraeg 10% yn yr ardal. Hysbysodd yr aelod arweiniol y pwyllgor fod y materion cynllunio materol ar waith trwy Lywodraeth Cymru (LIC) ac nid llywodraeth leol. Hysbysodd y Cynghorydd Graham Timms y pwyllgor yr amlygwyd yr Iaith Gymraeg trwy gydol yr asesiad effaith Lles.

PENDERFYNWYD: bod y pwyllgor wedi derbyn a nodi'r diweddariad ynghylch y Strategaeth Gymraeg.

7 GWEITHGARWCH HYRWYDDO'R GYMRAEG

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yr adroddiad gweithgaredd hyrwyddo Cymraeg (a gylchredwyd yn flaenorol) a oedd â'r nod o ddiweddarau aelodau ar weithgaredd hyrwyddo'r Gymraeg ers y cyfarfod diwethaf a'r cynlluniau amlinellol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Grŵp hwn wedi bod yn heriol, gyda'r tîm angen dod o hyd i ffyrdd amgen o ddarparu gweithgaredd hyrwyddo Cymraeg.

Mae'r holl weithgaredd dros y chwe mis diwethaf wedi'i gynnal trwy gyfarfodydd ar-lein a hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy sianeli cyfathrebu mewnol. Ymhlith y rhain roedd –

- **Gweithio mewn partneriaeth**- Mae cyfarfodydd Partner Iaith (y Bartneriaeth Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych) wedi parhau ar-lein. Er bod COVID wedi cael rhywfaint o effaith ar waith y bartneriaeth, megis y gwaith o ddadansoddi gweithgaredd cymdeithasol Cymraeg ledled y sir, mae wedi gallu symud ymlaen gyda rhai gweithgareddau.
- **Ymgyrch 'Mae gen i Hawl'** - Ymgyrch gan Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg oedd hon i hyrwyddo hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yr ymgyrch yn ddigwyddiad blynyddol, gyda chefnogaeth rhaglen genedlaethol o weithgareddau. Yn Sir Ddinbych, rydym wedi cefnogi'r ymgyrch hon trwy hyrwyddiad rheolaidd ond wedi penderfynu ei rhoi ar waith am gyfnod hwy, i ymestyn cyrhaeddiad ein negeseuon a gallu cynnal amryw o weithgareddau hyrwyddo.
- **Eisteddfod Staff** - Cynhaliodd y Cyngor ei ail Eisteddfod ar Fawrth 6ed fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi, ychydig cyn cloi cenedlaethol y coronafirws. Roedd y digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi'r proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddathlu diwylliant Cymru. Daw ar adeg pan oedd sylw sylweddol ar y Gymraeg a'r ffaith bod Eisteddfod yr Urdd i fod i ddychwelyd i'r sir ym mis Mai 2021.
- **Paned a Sgwrs** - Gan fod mwyafrif y staff bellach yn gweithio gartref, cynhaliwyd y sesiynau Paned a Sgwrs yn ddigidol. Cafwyd dechrau da iawn i'r sesiynau rhithwir gyda nifer o aelodau yn bresennol, ond mae'r niferoedd wedi gostwng yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd hyn oherwydd y ffaith bod angen seibiant ar staff rhag bod o flaen y sgrin fach dros amser cinio felly roedd amser y sesiwn yn anghyfleus o'i gymharu â sesiynau wyneb yn wyneb.

- **Diwrnod Owain Glyndŵr** Eleni i ddathlu diwrnod Owain Glyndŵr, rhannodd y Cyngor fideo yr oedd wedi'i gynhyrchu ar ei gyfrifon cymdeithasol corfforaethol. Mae'r fideo yn dangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol yn y sir sy'n ymwneud â'i hanes. Derbyniodd hyn adborth cadarnhaol iawn gan staff a nododd llawer nad oeddent yn ymwybodol o arwyddocâd hanes Sir Ddinbych i Glyndŵr.
- **Diwrnod Shwmae Su'mae-** Cefnogodd y Cyngor ymgyrch genedlaethol Diwrnod Shwmae Sumae ym mis Hydref. Bwriad y diwrnod oedd hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda shwmae neu sumae. Nod y dydd oedd dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb - siaradwyr rhugl, dysgwyr neu'r rhai a allai fod yn dawedog ynglŷn â siarad Cymraeg.
- **Tasgau Tachwedd** - Yn ystod wythnos gyntaf pob mis byddem yn llunio ac yn cyflwyno tasgau byr a hwyliog i staff eu cwblhau ar-lein. Byddai'r gwahanol dasgau â thema bob amser yn cyd-fynd â'r mis / tymor. Y nod oedd ymgysylltu â staff trwy gyfrwng y Gymraeg a cheisio eu cael i ddefnyddio a meddwl yn Gymraeg wrth weithio gartref.

Diolchodd aelodau'r pwyllgor i swyddogion am y gwaith caled parhaus a'u hymroddiad i'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Awgrymwyd y dylid gwahodd sefydliadau allanol i gyfarfodydd pwyllgor Llywio'r Gymraeg yn y dyfodol i drafod gweithio mewn partneriaeth.

PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg yn nodi'r gweithgaredd hyrwyddo a'r cynlluniau amlinellol ar gyfer 2021.

8 FORWARD WORK PROGRAMME

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor i'w hystyried.

PENDERFYNWYD: derbyn a nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:34am

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Grŵp Llywio'r Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod	16 Mawrth 2020
Aelod/Swyddog Arweiniol	Nicola Stubbins / Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts
Awdur yr Adroddiad	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg
Teitl	Datblygiadau iaith Gymraeg lleol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â datblygiadau yn y Gymraeg.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd gyda gweithgareddau iaith Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Sir Ddinbych.

4. Manylion yr adroddiad

Isod ceir crynodeb o rai o'r prosiectau allweddol sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn Sir Ddinbych, yn ogystal â datblygiadau Cenedlaethol.

'Mwy Na Geiriau'

O ran ein cynllun busnes ar gyfer 2020-21, isod mae crynodeb o'r camau a gyflawnwyd mewn perthynas â 'Mwy na Geiriau'. Mae'r pandemig wedi effeithio ar gyflawni rhai o'r gweithredoedd hyn.

Parhau i hysbysu'r holl staff mewnol a gwasanaethau a gomisiynwyd o'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Comisiynwyd cwrs ar-lein gyda'r nod o arfogi staff gofal ar draws gwasanaethau Oedolion a Phlant â'r sgiliau i gyfarch a chwrdd â'r cyhoedd yn Gymraeg ac i wneud y Cynnig Rhagweithiol.

Yn ystod 2020-21 rydym hefyd wedi rhannu'r manylion ynghylch ble y gall darparwyr archebu'r adnoddau 'Iaith Gwaith' am ddim. Rydym hefyd wedi hyrwyddo'r sticer swigen oren a gynhyrchwyd gennym yn Sir Ddinbych yn ddiweddar, gan fod y sticer yn ddefnyddiol fel arwydd cyflym a gweledol o ddewis iaith ar unrhyw waith papur, e.e. ffeiliau unigolion mewn cartrefi preswyl neu ffurflenni 'Beth sy'n bwysig'. Mae rhai darparwyr gofal hefyd yn defnyddio'r sticeri mawr ar ddrysau ystafelloedd gwely'r preswylwyr. Eleni dathlodd Comisiynydd y Gymraeg 15 mlynedd ers lansio'r bathodyn swigen oren. Cafodd aelod o staff Sir Ddinbych a hefyd drigolion Cartref Gofal Sir Ddinbych eu cynnwys yn y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â phwysigrwydd y 'swigen oren fel rhan o'r pecyn gofal i ofalwyr'.

Cynyddu'r defnydd o Gymraeg gan y gweithlu gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych a hyrwyddo'r defnydd o adnoddau digidol a chysiau Gymraeg ar-lein a ddatblygwyd gan 'Cymraeg Gwaith'

Disgwylir i holl staff mewnol y Cyngor gwblhau modiwl e-ddysgu ar 'Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg' ac mae staff sy'n newydd i'r adran yn derbyn cyflwyniad am 'Mwy na Geiriau' fel rhan o'u cyflwyniad sefydlu.

Rydym hefyd wedi rhannu gwybodaeth am y cwrs 10 awr ar-lein am ddim sydd ar gael i'r sector gofal, ynghyd â'r adnoddau a gynhyrchir gan Gymunedau Digidol Cymru. Yn ogystal, yn ein cylchlythyr gofal cymdeithasol misol rydym wedi rhannu manylion amrywiaeth o adnoddau Gymraeg gyda darparwyr sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys amrywiaeth o Apiau iaith a manylion yr adnodd hyfforddi newydd Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n 'Cefnogi Gweithio'n Ddwyieithog' i bobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, mae cwrs ar-lein penodol wedi'i gomisiynu ar gyfer staff gofal Sir Ddinbych ar draws y gwasanaethau i Oedolion a Phlant. Mae'r rhain wedi cynnwys cwrs blasu a llyfr gwaith Gymraeg byr ar-lein a hefyd cwrs ar-lein sy'n addas ar gyfer staff sy'n deall Gymraeg llafar yn rhwydd ond sydd heb hyder wrth siarad Gymraeg.

Dangos ymrwymiad i ymgorffori'r Gymraeg ym mhob maes gwasanaeth yn y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol / Gwasanaethau Plant

O fewn y Gwasanaethau Plant ac Addysg rydym wedi comisiynu'r Ap 'Mind Of My Own' a lansiwyd ym mis Mehefin 2020. <https://mindofmyown.org.uk/>. Mae'r Ap ar gael i blant a phobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at Wasanaethau Plant i fynegi eu barn. Mae'r ap ar gael yn Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ogystal o fewn Gwasanaethau Oedolion rydym wedi sicrhau bod darn o waith sydd newydd ei gomisiynu ac sy'n digwydd mewn partneriaeth â 'Community Catalysts' o Efrog yn gwbl ymwybodol o ofynion safonau'r Gymraeg wrth iddynt ddarparu Micro-fentrau Cymunedol.

Gwaith ychwanegol wrth hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

Rydym yn y broses o ddiweddarau ein gwefan Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac wedi cynnwys adran ar 'Defnyddio eich Cymraeg mewn gofal'. Bydd y wefan ar gael ar gyfer staff gofal mewnol ac allanol a bydd yn cynnwys gwybodaeth am y Cynnig Rhagweithiol a 'Mwy na Geiriau'. Bydd y wefan hefyd yn cefnogi staff i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau iaith ynghyd â darparu cysylltiadau ac adnoddau defnyddiol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddwn yn cynnwys straeon newyddion da yn cynnwys staff sydd wedi mynychu cyrsiau Cymraeg, a hefyd yn hyrwyddo digwyddiadau fel ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg, dydd Miwsig Cymru a Shwmae Su'mae.

Gofynnwyd hefyd i gynrychiolydd o'r tîm Datblygu'r Gweithlu am fewnbwn i'r gweithdai i gefnogi'r peilot o ymsefydlu Hyrwyddwr y Gymraeg ar-lein ar gyfer Cyfeillion Dementia Cymru a hefyd i fod yn rhan o brosiect Cenedlaethol i arwain ar y gwaith o safoni terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg

Yn ystod 2020 llwyddwyd i gwblhau gwaith adeiladu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd a Chanolfan y Gymraeg Sir Ddinbych yn Llanelwy. Agorwyd darpariaeth Cylch meithrin ar dir yr ysgol newydd yn Llanfair Dyffryn Clwyd ac yn Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl gan gynyddu y nifer o ysgolion sydd â Chylch meithrin wedi ei gydleoli ar y safle.

Mae covid 19 wedi cael effaith sylweddol ar weithgareddau cyfoethogi cwricwlwm a cafodd Eisteddfod yr Urdd, a oedd yn bwynt ffocws gweithgareddau ac i fod i'w

chynnal yn Ninbych, ei gohirio. Hefyd bu rhaid addasu gyda nifer o weithgareddau Cymraeg i Blant a hyfforddiant, gan gynnwys y cwrs sabothol i athrawon, i weithredu'n rhithiol.

Ym mis Medi 2020 cwblhawyd Canolfan y Gymraeg Sir Ddinbych a drwy hyn lleoliad ar gyfer Cylch Meithrin newydd yn Ninas Llanelwy. Ariannwyd yr adeilad gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Cyfalaf y Gymraeg. Mae'r adeilad hefyd â tair ystafell hyfforddi, dwy swyddfa ac ystafell gyfarfod. Mae Covid 19 wedi cael effaith sylweddol ar y Ganolfan. Cafwyd oedi yn ystod y cyfnod adeiladu ac o ganlyniad nid oedd yr adeilad yn barod tan Medi 2020. Mae'r ganolfan wedi cynnal cwrs meithrin ôl-16 gyda disgyblion o Ysgolion Glan Clwyd a Dyffryn Conwy yn mynychu. Mae Prifysgol Bangor hefyd wedi dechrau cynnal ei cwrs sabothol yn yr adeilad ond yn anffodus yn dilyn ail gyflwyno cyfnod clo daeth hwn i ben am y tro. Mae 10 aelod o staff yn dilyn y cwrs sabothol eleni.

Yn 2019 roedd 93% o ddisgyblion yn trosglwyddo o CA2 i CA3 ac yn parhau mewn addysg Gymraeg. Yn 2020 mae'r canran wedi aros yn ei unfan. O'r disgyblion sydd heb drosglwyddo i addysg Gymraeg CA3 mae 4% wedi trosglwyddo i Ysgolion cyfrwng Saesneg a 3% i ffrydiau Saesneg ysgolion 2B. Mae'r disgyblion sydd wedi symud i ysgolion cyfrwng Saesneg wedi symud i Ysgolion Uwchradd agosach na'r ddarpariaeth Cymraeg agosaf a / neu i ddarpariaeth ffydd er nad oedd eu hysgol gynnar yn ysgolion ffydd.

Ar gyfartaledd mae 263 disgybl yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ymhob blwyddyn CA4 tra yn CA3 mae'r cyfartaledd yn 275 disgybl pob blwyddyn. Dangosir hyn bod y patrwm o gynnydd niferoedd addysg Gymraeg Uwchradd. Mae ffrwd Gymraeg blwyddyn 7 Ysgol Brynhyfryd yn 3 dosbarth a gyda dros 40% o ddisgyblion y flwyddyn. Os ydy disgyblion o du allan i glwstwr yr Ysgol yn cael eu heithrio mae'r canran yn cynyddu i 50%.

Arolwg sgiliau ieithyddol Cymraeg

Disgwylir i'r Cyngor, fel rhan o'i ymateb i safonau'r Gymraeg, gynnal hunanasesiad o sgiliau iaith Gymraeg staff a fydd yn cael eu nodi yn adroddiad monitro blynyddol Comisiynydd y Gymraeg.

Y templed a ddefnyddiwyd ar gyfer yr hunanasesiad yn 2020 oedd:

	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Siarad	Dim gallu	Yn gallu dweud enwau lleoedd/ enwau cyntaf Cymraeg neu ddarllen arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg. Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol trwy roi gair o Gymraeg ar gychwyn ac ar ddiwedd sgwrs. Yn gallu rhoi a derbyn manylion personol.	Yn gallu deall hanfodion sgwrs Gymraeg. Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol e.e. gweinyddu syml neu dasgau dydd i ddydd. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddyd a chyfarwyddiadau	Yn gallu sgwrsio yn rhannol yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg i drafod ac i gyflwyno gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau	Yn gallu cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd yn eu maes eu hunain o waith ac yn gallu dadlau dros neu yn erbyn achos. Yn gallu delio â phobl yn Gymraeg yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd ond yn troi i'r Saesneg i ddelio â sefyllfaoedd cymhleth.	Yn gallu delio'n effeithiol â thrafodaethau a chwestiynau cymhleth yn Gymraeg Yn gallu addasu'r dull o siarad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac anghenion

Dilynwyd y templed hwn am y tro cyntaf yn 2020 er mwyn darparu gwybodaeth fanylach o ran y lefelau, fel y byddai hyn yn helpu'r staff i gwblhau'r asesiad yn gywir. Byddai hefyd yn golygu y byddai gwybodaeth fwy ystyrlon yn cael ei choladu ac y byddai'n cael ei bwydo i'r broses cynllunio busnes flynyddol.

Dyma ganlyniadau'r arolwg fesul gwasanaeth:

Gwasanaeth	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	Anhysbys	Cyfanswm
Gwella Busnes a Moderneiddio	19	25	15	2	5	5	11	82
Cymunedau a Chwsmeriaid	40	42	19	17	17	14	31	180
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	196	118	45	30	26	21	108	544
Hamdden Sir Ddinbych	34	47	26	5	14	22	77	225

Gwasanaethau Addysg a Phlant	59	79	25	10	16	16	134	339
Cyllid ac Eiddo	50	45	20	16	10	8	9	158
Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol	183	335	67	30	25	23	35	698
Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd	16	26	7	4	3	13	13	82
Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad	47	59	19	12	9	8	84	238
Cyfanswm	644	776	243	126	125	130	502	2,557

Y diweddaraf am bartneriaeth y Gymraeg - Partneriaith

Mae'r bartneriaeth yn cynnwys nifer o sefydliadau gan gynnwys y Cyngor, yr Urdd, Menter Iaith Sir Ddinbych, Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, Coleg Cambria, Mudiad Meithrin a Cymraeg i Blant.

Mae covid wedi oedi'r gwaith mapio gweithgareddau Cymraeg ar draws y Sir am y tro gan nad ydym yn medru gweithio gyda chymunedau lleol fel yr hoffem ei wneud.

Gwahoddwyd swyddog Comisiynydd y Gymraeg i drafod sut mae covid wedi effeithio ar y Gymraeg yn genedlaethol yn ogystal ag unrhyw arferion da i'w rhoi ar waith yn ystod y cyfnod heriol yma, a daeth Carwyn Edwards i drafod ymgynghoriad categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Rydym hefyd yn gweithio ar ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol trwy gynllunio i gydweithio ar ddatliadau cenedlaethol Cymru.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n sail i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes arian ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Byddai unrhyw gostau'n cael eu hamsugno gan y partneriaid presennol a thrwy ewyllys da'r Aelodau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen cynnal asesiad effaith llesiant ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 a'r safonau ar gyfer y Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor hefyd rôl, drwy ei safonau iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r is-grŵp cyfathrebu a marchnata, yn ogystal ag is-grŵp strategol sy'n cydlynu ymateb y Cyngor.

Mae gwybodaeth hefyd wedi'i darparu i grŵp llywio'r iaith Gymraeg a rhai grwpiau o Aelodau.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw gostyngiad posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir (yn ôl Mesur y Cyfrifiad Cenedlaethol). Mae'r holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwmo i gyfrannu tuag at ddatblygu'r Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr a osodwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2050.

Adroddiad i'r	Grŵp Llywio'r Gymraeg
Dyddiad y Cyfarfod	16 Mawrth 2020
Aelod/Swyddog Arweiniol	Nicola Stubbins / Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts
Awdur yr Adroddiad	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg
Teitl	Gweithgareddau i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau hyrwyddo'r Cymraeg ers y cyfarfod diwethaf a'r cynlluniau amlinellol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi'r gweithgaredd yn ystod 2020 a chymeradwyo'r cynnig ar gyfer gweithgarwch hyrwyddo 2021.

4. Manylion yr adroddiad

Staff Eisteddfod

Cynhaliodd y Cyngor ei drydedd Eisteddfod rhwng Chwefror 15fed a Mawrth 1af fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddathlu diwylliant Cymru. Daw ar adeg pan mae sylw sylweddol ar y Gymraeg a'r ffaith bod Eisteddfod yr Urdd i fod i ddychwelyd i'r sir ym mis Mai 2022. Eleni, o ganlyniad i covid a'r mwyafrif o staff yn gweithio gartref, bu'n rhaid i ni fod ychydig yn fwy creadigol ac aeth yr Eisteddfod yn

ddigidol. Defnyddiwyd ein tudalen facebook staff preifat fel lleoliad i gynnal yr Eisteddfod a hyrwyddo categorïau amrywiol i staff gystadlu ynddynt drwy uwch lwytho llun i gyd-fynd â phob categori. Roedd yr ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn llawer gwell na'r disgwyl ac roedd llawer o ymgysylltiad gan staff. Roedd yr Eisteddfod ddigidol yn llwyddiannus iawn gyda 163 o geisiadau a dros 700 o bleidleisiau.

Paned a Sgwrs

Gan fod y rhan fwyaf o'r staff bellach yn gweithio gartref mae'r sesiynau bellach yn cael eu cynnal yn rhithiol. Cawsom ddechrau da iawn i'r sesiynau rhithiol gyda nifer o aelodau'n bresennol, ond mae'r niferoedd wedi gostwng yn y misoedd diwethaf. Y rheswm am hyn oedd bod staff angen toriad o fod o flaen y sgrin dros amser cinio felly roedd amser y sesiwn yn anghyfleus o'i gymharu â sesiynau wyneb yn wyneb. Mae'r niferoedd wedi codi eto yn ddiweddar gan ein bod wedi newid amser y sesiynau ac mae'r adborth gan staff wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Paratowyd tasgau ysgrifenedig wythnosol ar gyfer staff er mwyn datblygu eu sgiliau ysgrifenedig hefyd.

Diwrnod Owain Glyndŵr

Eleni i ddathlu diwrnod Owain Glyndwr, rhannodd y Cyngor fideo yr oedd wedi'i gynhyrchu ar ei gyfrifon cymdeithasol corfforaethol. Mae'r fideo yn dangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol o fewn y Sir yn ymwneud â'i hanes. Cafodd hyn adborth cadarnhaol iawn gan staff a dywedodd llawer nad oeddent yn ymwybodol o hanes Glyndŵr yn Sir Ddinbych.

Ymgyrch 'Mae gen i hawl'

Ymgyrch yw hon i ddathlu'r gwasanaethau Cymraeg y mae Sir Ddinbych yn eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i geisio cynyddu'r nifer oedd yn dewis eu defnyddio. Mae'r ymgyrch farchnata yn sôn am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd yn ogystal â staff y Cyngor.

Ym mis Medi, roedd negeseuon allanol a bostiwyd ar ein cyfryngau cymdeithasol yn wythnosol yn cynnwys lluniau o staff sy'n siarad/dysgu Cymraeg yn nodi eu cyfrifoldebau a sut mae'r Gymraeg o fudd iddynt yn y swydd. Mae'r negeseuon wedi creu llawer iawn o sylw cadarnhaol ar ein cyfrifon gyda phobl yn canmol ein staff.

Diwrnod Shwmae Sumae

Unwaith eto eleni roeddem yn rhan o ddathliadau diwrnod Shwmae Sumae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda 'Shwmae' neu 'Su'mae' gyda'r nod i ddangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Roedd hi'n anodd creu rhywbeth newydd oherwydd y sefyllfa sydd ohoni felly fe wnaethon ni rannu ambell neges ar ein cyfrifon cymdeithasol yn ogystal â rhannu'r fideo wnaethon ni y llynedd o fascot y ddraig goch (Dewi Draig) yn cael ei ffilmio gan ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Pasiodd y ddraig bêl rygbi i aelodau eraill o staff ar ôl dweud "shwmae" neu "sumae", yna gwnaeth yr aelodau staff hynny yr un peth. Y syniad y tu ôl i hyn oedd mai'r Gymraeg oedd y bêl rygbi a'n bod yn pasio'r iaith ymlaen.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae cyfarfodydd y Partner Iaith wedi parhau yn rhithiol. Er nad ydym wedi gallu parhau â rhai o'n cynlluniau am y tro, fel gwaith mapio gweithgareddau Cymraeg y Sir, rydym wedi trafod yr effaith y mae Covid wedi'i chael ar y Gymraeg o fewn gwahanol sefydliadau a gwahoddwyd aelod o staff o Gomisiynydd y Gymraeg i drafod y pwnc hwn o bersbectif cenedlaethol. Sesiwn ddefnyddiol iawn lle gallwn weithredu ar sawl awgrym ganddynt a llunio cynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Tasgau Tachwedd

Yn ystod mis Tachwedd fe wnaethon ni gyflwyno tasgau byr a hwyliog i staff eu cwblhau ar ein tudalen facebook staff preifat. Y nod oedd ymgysylltu â staff drwy gyfrwng y Gymraeg a cheisio eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg a meddwl yn Gymraeg wrth weithio gartref. Mae'n gyfnod anodd a heriol ar hyn o bryd i gadw'r momentwm i ddysgwyr Cymraeg gan nad ydyn nhw'n clywed nac yn gweld cymaint o Gymraeg ag y bydden nhw yn y swyddfa, yn enwedig os nad ydyn nhw'n byw gyda rhywun sy'n siarad yr iaith.

Dydd Santes Dwynwen

Crëwyd cwis am hanes Santes Dwynwen fel rhan o ddathliadau'r dydd eleni. Fe'i rhannwyd yn fewnol ac yn allanol ar ein cyfryngau cymdeithasol gyda dros 30 o bobl

yn cymryd rhan. Fe wnaethon ni hefyd greu dogfen o eirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg.

Dydd Miwsig Cymru

Fe wnaethon ni greu rhestr chwarae o ganeuon Cymraeg i'w rhannu gyda staff a'u hannog i chwarae'r rhestr chwarae gartref, yn y gwaith neu wrth deithio yn y car. Gwnaethom hefyd hyrwyddo'r gân newydd ar gyfer ymgyrch Nerth dy ben, 'Byw i'r awr' sy'n ymgyrch i atgoffa ein gilydd o'n cryfderau a'n dewrder, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol ac anodd hwn. Mae hefyd yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae cerddoriaeth yn ei gael ar eich iechyd meddwl sy'n neges bwysig gan bod llawer o staff yn gweithio gartref ar hyn o bryd. Mae mwyafrif o'r artistiaid a ddangosir yn y fideo cerddoriaeth yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Glan Clwyd.

Hyrwyddo safonau'r iaith Gymraeg

Rydym wedi creu dogfennau i hyrwyddo safonau'r iaith Gymraeg i'w rhannu ar dudalen facebook staff y cyngor, Denbighshire Today, LINC a visiontime. Mae'n fath o restr wirio ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau. Rydym eisoes wedi hyrwyddo'r safonau ar gyfer ateb y ffôn, trefnu cyfarfodydd a gohebiaeth.

Dydd Gŵyl Dewi

Eisteddfod y staff oedd y prif ddigwyddiad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eto eleni, ond fe wnaethom hefyd rannu gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol am hanes Dewi Sant, geirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg a'r ffeithiau diddorol am pam mae'r cennin a'r cennin Pedr yw symbolau cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r rheswm y tu ôl i'w gwisgo ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Y camau nesaf: Amserlen bresennol y gweithgarwch ar gyfer 2021:

MIS	GWEITHGAREDD
Mawrth 2021	Arolwg sgiliau iaith Gymraeg staff
Ebrill 2021	Hyrwyddo ein cyfryngau cymdeithasol Cymraeg

	Darparu dogfen ar gyfer y Canolfanau Hamdden, Llyfrgelloedd a'r derbynfeydd gyda geirfa Gymraeg perthnasol i helpu dysgwyr.
Mai 2021	Creu fideo i atgyfnerthu Safonau'r Iaith Gymraeg a'i gynnwys yn fideo sefydlu AD.
Mehfin 2021	Hyrwyddo polisi cyfarch yn ddwyieithog dros y ffôn.
	Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2022-27
	Nodi siaradwr Cymraeg/Dysgwr Cymraeg ar e-byst staff
Gorffennaf 2021	Hyrwyddo negeseuon dwyieithog 'allan o'r swyddfa'
Awst 2021	Creu dogfen o eiriau Cymraeg perthnasol ar gyfer staff i'w ddefnyddio mewn cyfarfodydd er mwyn annog dechrau a gorffen cyfarfodydd yn y Gymraeg.
Medi 2021	Dydd Owain Glyndŵr
Hydref 2021	Dydd Shwmae Su'mae
	Wythnos Dysgu Cymraeg
Tachwedd 2021	Ymgyrch 'Mae gen i Hawl'
Rhagfyr 2021	Nadolig – cyfarch yn Gymraeg mewn siopau

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n sail i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes arian ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Byddai unrhyw gostau'n cael eu hamsugno gan y partneriaid presennol a thrwy ewyllys da'r Aelodau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen cynnal asesiad effaith llesiant ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 a'r safonau ar gyfer y Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor hefyd rôl, drwy ei safonau iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risg yw gostyngiad posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir (yn ôl Mesur y Cyfrifiad Cenedlaethol). Mae'r holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at ddatblygu'r Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr a osodwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2050.

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cyfarfod	Eitem (Disgrifiad / Teitl)		Pwrpas yr Adroddiad	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
13 Gorffennaf 2021	1	Adroddiad blynyddol Monitro'r Gymraeg - Comisiynydd y Gymraeg	Cytuno ar yr adroddiad i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin 2021.	Sian Owen / Manon Celyn Roberts
	2	Comisiynydd y Gymraeg	Diweddaru'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r Pwyllgor – meysydd i'w gwella a meysydd i'w hyrwyddo yn ystod 2021.	Sian Owen / Manon Celyn Roberts
	3	Gweithdy i drafod y prif bynciau ar gyfer Strategaeth yr Iaith Gymraeg		Sian Owen / Manon Celyn Roberts
9 Tachwedd 2021	1	Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Diweddariad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Geraint Davies
	2	Mwy na Geiriau/ More Than Words	Diweddariad ar Mwy na Geiriau/ More Than Words	Margaret Watkins
	3	Eisteddfod yr Urdd – Diweddariad	Diweddariad ar Eisteddfod yr Urdd	Sian Owen / Manon Celyn Roberts
	4	Cyflwyniad gan Bartner: Carys Gwyn, Mudiad Meithrin.	Derbyn cyflwyniad ar waith Mudiad Meithrin	Carys Gwyn

Nodyn i Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau

Cyfarfod	Dyddiad cau	Cyfarfod	Dyddiad cau	Cyfarfod	Dyddiad cau
Gorffennaf	29 Mehefin	Tachwedd	26 Hydref		

Diweddarwyd 04/03/21 KEJ

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag